

Ysgol I.D. Hooson
Heol Caradog
Rhosllannerchrugog
LL14 2DX
Ffôn: 01978 832950
Ffacs: 01978 832955
e-bost: mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk



YSGOL I.D. HOOSON

Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni Ysgol I D Hooson

Cyflwyniad

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol 2015/16. Ynndo mae crynodeb o fywyd a gwaith y Llywodraethwyr yn ystod y flwyddyn academaidd diwethaf. Hoffwn ddiolch i'r plant, y staff, y rheini, fy nghyd-lywodraethwyr ac ein cyfeillion am eu cefnogaeth.

Rydym yn parhau i dyfu fel ysgol on der hynny mae'n braf teimlo ein bod yn parhau i fod yn un glos iawn. Mae'n braf derbyn gwybodaeth ynglyn a'r holl weithgareddau sydd wedi eu trefnu ar gyfer y plant a diolch am y rhai sy'n rhoi o'i gwirfodd i gyfoethogi profiad y plant.

Llwyddo yw un o'n prif amcanion i bob plentyn, ac mae'r pwyslais a roddir ar godi safonau ymhellach yn parhau. Braf oedd cael dathlu llwyddiant unigolion a thimau unwaith eto yn yr eisteddfodau ac ar y meysydd chwarae.

Yn ystod 2015-16, croesawyd athrawon newydd i staff yr ysgol. Ymunodd Miss Eiliw Evans a Miss Delyth Dempsey a ni ar y staff dysgu.

Yn ddiffuant,

Mr Aled Roberts
Cadeirydd y Corff Llywodraethol

AELODAU Y CORFF LLYWODRAETHOL

During 2015-16, vacancies became available on the Governing Body

Mr Aled Roberts	Cadeirydd/Chairman Cynrychiolydd Awdurdod Addysg/LEA Representaive	Mr David Blackwell	Cynrychiolydd Rieni / Parents Representative
Mr Peter Jones	Is-Gadeirydd/Vice-Chairman Aelod wedi cyfethol/ Co-opted member	Mr Paul Pemberton	Cynrychiolydd Cyngor Bro/ Community Council Representative
Mr Dewi Williams	Aelod wedi cyfethol/ Co-opted member	Mrs Stella Matthews	Cynrychiolydd Awdurdod Addysg/ LEA Representaive
Mr Geraint Phillips	Aelod wedi cyfethol/ Co-opted member	Swydd wag / Vacancy	Cynrychiolydd Awdurdod Addysg/LEA Representaive
Mrs Sarah Thomas-Ellis	Cynrychiolydd Rieni / Parents Representative	Mrs Sara Thomas	Cynrychiolydd Staff / Staff Representative
Mr David Hughes	Cynrychiolydd Rieni / Parents Representative	Mr Sion Owen	Cynrychiolydd Athrawon / Teachers Representative
Pastor Joshua Roberts	Cynrychiolydd Rieni / Parents Representative	Mr Rhodri Jones	Pennaeth / Headteacher(11.4.16)

Cafodd Llywodraethwr ei benodi yn ystod 2015-16

Mae gan y Corff Llywodraethol o fewn pob ysgol gyfrifoldeb dros y canlynol:

Ymddygiad cyffredinol o fewn yr ysgol.

Sicrhau fod cwricwlwm yr ysgol yn ymateb i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, cyffredinol yr ALL.

Penderfynu ar bolisi a darpariaeth ar gyfer Addysg Rhyw.

Penderfynu ar egwyddorion cyffredinol y dylid ei dilyn gan y Pennaeth mewn perthynas a pholisi ymddygiad yr ysgol.

Rheolii cyllideb a osodir gan y r ALL.

Bod yn rhan o brosesau penodi staff.

Sicrhau fod gwybodaeth am yr ysgol yn cael ei gyflwyno i rieni.

Sicrhau fod gwybodaeth am y cwricwlwm yn eang a chytbwys, ac ei fod yn cwrdd a gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Sicrhau fod gwybodaeth am y gyrhaeddiad y disgyblion ac o fewn y cwricwlwm ar gael i rieni ac eraill.

Sicrhau fod yr ysgol yn cwrdd a gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd ac addysg grefyddol.

Paratoi adroddiad blynyddol a chynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni I drafod yr adroddiad(os oes niferoedd digonol)

GWYBODAETH GYLLIDEBOL

Cyfriflen ariannol ar gyfer 2015/2016

Employees	£ 943,594.91
Premises	£ 62,750.19
Transport	£ 2,957.88
Supplies	£ 25,780.91
Support Services	£ 81,623.00
Total Expenditure	£1,116,706.80

Income (incl. opening balance) £ 232,281.60

Net Expenditure £ 884,425.29

School Fund (April 2015 – March 2016)

Opening balance	£ 5,595.04
Receipts	£ 44,985.64
Expenditure	£ 43,479.74
Closing balance	£ 7,100.94

STAFFIO

Mae staff yr ysgol yn cynnwys:

- 1 Pennaeth
- 12 Athro/awes llawn amser
- 2 Athro/awes rhan amser
- 14 Cymhorthydd llawn amser
- 2 Cymhorthydd rhan-amser
- 1 ysgrifenyddes llawn amser

Niferoedd disgyblion ar ddiwedd Gorffennaf 2016.

Oed Meithrin - 29

Oed Derbyn - 44

Bl. 1 - 43

Bl. 2 - 42

Bl. 3 - 38

Bl. 4 - 42

Bl. 5 - 34

Bl. 6 - 37

Cyfanswm : 309

BLAENORIAETHAU'R YSGOL

Asesu – Gweithiodd yr ysgol ar ddatblygu systemau tracio disgyblion.

Rhifedd – Cafodd cynllunio byr, canolig a hir dymor o fewn mathemateg ei hadnabod fel maes gwelliant, yn ogystal a chyfleoedd i ddefnyddio rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Llythrennedd – Targedwyd disgyblion ar gyfer grwpiau darllen a rhaglenni ymyraeth. Roedd rhaglen Tric a Chlic yn llwyddiannus wrth ddatblygu medrau darllen a llythrennedd gynnar. Daeth yr awdures Angharda Tomos i'r ysgol i weithio gyda disgyblion yn y cyfnod sylfaen.

Presenoldeb – Rhoddwyd ffocws ar wella presenoldeb. Cyflwynwyd trefniadau i fonitro presenoldeb a phrydlondeb, yn ogystal a chyflwyno gwobrwyon am bresenoldeb da.

Mae gwybodaeth bellach ar y blaenoriaethau uchod ar gael drwy gysylltu gyda'r Pennaeth.

Mae gwasanaeth gwella ysgolion '**Gwe**' yn weithredol ar draws chwe sir y Gogledd. Mae adroddiadau tymhorol Gwe yn cael eu rhannu gyda'r Bwrdd Llywodraethol, gan gyfrannu yn allweddol tuag at dargedau gwelliant dilynol.

ASESIADAU ATHRO Blwyddyn 2

% o ddisgyblion yn cyrraedd Deilliant 5 (y deilliant disgwylidig erbyn diwedd blwyddyn 2)

	Cymraeg	Mathemateg	Personol a Chymdeithasol
Ysgol	93%	90.7%	93%
Awdurdod Lleol	88.4%	89.5%	94%
Cymru	90.7%	89.9%	94.5%

% o ddisgyblion yn cyrraedd Deilliant 6

	Cymraeg	Mathemateg	Personol a Chymdeithasol
Ysgol	39.5%	41.9%	41.95%
Awdurdod Lleol	31%	37%	55.6%
Cymru	36%	36.4%	58.9%

ASESIAD ATHRO Blwyddyn 6

% o ddisgyblion yn cyrraedd Lefel 4 (Lefel disgwylidig)

	Cymraeg	Saesneg	Mathemateg	Gwyddoniaeth
Ysgol	92%	92%	92%	97%
Awdurdod Lleol	92.5%	90%	90.3%	90.8%
Cymru	90.8%	90.3%	91%	91.7%

% o blant yn cyrraedd Lefel 5

	Cymraeg	Saesneg	Mathemateg	Gwyddoniaeth
Ysgol	27%	29.7%	27%	40.5%
Awdurdod Lleol	27%	40.7%	42%	43.4%
Cymru	38%	42%	43.2%	42.5%

YR YSGOL A'R GYMUNED

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos gyda amryw o asiantaethau lleol. Mae rhain yn cynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Iaith a Lleferydd, Nyrs ysgol a Gwasanaeth Ffisiotherapi. Mae gan yr ysgol berthynas agos gyda'r Gwasanaeth Heddlu. Mae Swyddog Addysg yr Heddlu yn ymweld a'r ysgol yn rheolaidd, gan weithio gyda dosbarthiadau penodol yn trafod themau sydd yn ymwneud a lechyd a Diogelwch. Mae Swyddogion Cymunedol yr Heddlu hefyd yn ymweld a'r ysgol yn ystod gweithgareddau sydd wedi ei trefnu, gan gynnig cefnogaeth gyda materion lleol. Mae'r ysgol wedi gwneud defnydd o leoliadau lleol ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau megis Theatr y Stiwt, Parc y Ponciau, Canolfan Plas Madoc a Eglwys San Silyn.

Yn ystod y flwyddyn fe wnaeth yr ysgol gynnal amryw o weithgareddau gan godi arian tuag at yr achosion canlynol:

Plant Mewn Angen, Apel Macmillan, Comic Relief

Ysgol Gymraeg yw Ysgol I D Hooson. Cymraeg yw iaith gyntaf yr ysgol. Cafodd yr ysgol lwyddiant yng nghystadlaethau yr Urdd, gyda amryw o'r disgyblion yn llwyddo i fynd ymlaen i gystadlu ar lefel Sirol a Chenedlaethol. Llwyddodd y grwpiau Dawns Credigol a Dawn Aml-gyfrwng orffen yn 2ail yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Fflint. Bu timau pêl-droed, pel-rwyd a rygbi yn cystadlu mewn cystadleuthau ac mewn gem,au cyfeillgar yn erbyn ysgolion lleol. Cafodd un disgybl lwyddiant yng nghystadleuaeth nofio'r Urdd gan gystadlu yn y rowndiau terfynol yn Abertawe.

Aeth disgyblion blwyddyn 6 ar ymweliad i Ysgol Morgan Llwyd fel rhan o raglen trosglwyddo. Aeth % o'r disgyblion ymlaen i Ysgol Morgan Llwyd.

Mae Clwb Brechwast ar gael i ddisgyblion oed meithrin hyd at flwyddyn 6. Mae dros 50 o blant yn mynychu'r clwb yn rheolaidd.

Mae Cylch Meithrin Maes y Gornel, a leolir yn y prif adeilad yn cynnig sesiynau bore a p'nawn i ddisyblion cyn oed meithrin. Mae Cylch Meithrin Hooson a leolir yn y caban ar fuarth yr ysgol, hefyd yn cynnig gofal ar gyfer sesiwn y bore a'r prynhawn.

Bu'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon yn brysur yn trefnu nifer o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn, a rydym yn ddiolchgar iawn i'r rhieni sydd yn cyfrannu tuag at weithgareddau. Mae'r GRhA wedi codi arian tuag at adnoddau dosbarth, ymweliadau i'r plant a goliau pêl-droed. Hefyd trefnwyd ffair Nadolig, Ffair Haf, bingo a discos ganddynt.

Cynigir amrywiaeth o weithgareddau all-gyrsiol i'r disgyblion. Mae rhain yn cynnwys gweithgareddau chwaraeon megis pêl-droed, dawnsio, rygbi, tenis, pêl-rwyd a chriced. Bu'r ysgol hefyd yn cystadlu yn erbyn ysgolion lleol ac mewn cystadlaethau pêl-droed, pêl-rwyd a rygbi. Cynigir amrywiaeth o wersi offerynnol, sydd yn cynnwys gwersi llinynol, pres a chwythbrenau. Yn ystod y flwyddyn, cynigiwyd gwersi drymiau i ddisgyblion cyfnod allweddol 2. Bu'r ysgol hefyd yn cystadlu mewn cystadlaethau llwyfan yr Urdd, gan gynnwys canu, adrodd a chystadlaethau offerynnol.

Yn ystod y flwyddyn cafwyd ymweliadau gan amryw o bobl a sefydliadau. Roedd rhain yn cynnwys :

NSPCC – Gweithdy CA2

Mrs Mair Tomos Ifans – Gemau buarth

Mark Griffiths – Sioe bypedau

Tim glanweithdra dannedd yr ALI

Geraint & Ben - Cwrs beicio a Diogelwch y ffordd i Bl.6

RHAI YMWELIADAU

Gwersyll yr Urdd Glan Llyn, Gwersyll yr Urdd Caerdydd, Eisteddfod Ryngwladol Llangollen, Mosque Lerpwl, Fferm Park Hall Croesoswallt, Eglwys San Silyn Wrecsam.

PRESENOLDEB

Gweithiodd yr ysgol yn galed i wella presenoldeb y disgyblion. Targed presenoldeb yr ysgol ar gyfer 2015/16 oedd 96%. Gwelwyd cynnydd yn y canranau presenoldeb yn ystod y flwyddyn. Er hyn, mae presenoldeb yn parhau fel blaenoriaeth barhaus i'r ysgol. Rydym yn gofyn i rieni i ystyried yn ofalus cyn cymryd plant ar wyliau yn ystod y tymor ysgol. Hoffem eich atgoffa y dylai'r disgyblion gyrraedd yr ysgol ar amser, fel y gellir eu harwain i'r dosbarthiadau ar gyfer cofrestru am 8.55. Bydd hyn yn sicrhau na fydd angen marcio'r plentyn yn hwyr ar y cofrestr.

Presenoldeb :	93.8%
Absenoldeb awdurdodedig:	5.7%
Absenoldeb di-awdurdodedig:	0.5%

Canranau presenoldeb ar gyfer dosbarthiadau statudol

Derbyn Miss Lewis	94.4%
Derbyn Miss Thompson	94.4%
Bl. 1 & 2 Miss Dempsey	93.9%
Bl. 1 & 2 Mrs Williams	95.8%
Bl. 1 & 2 Miss Davies	94.6%
Bl. 3 & 4 Mr Roberts	93.1%
Bl. 3 & 4 Miss Morris	94.1%
Bl. 3 & 4 Miss Charters	93.9%
Bl. 5 & 6 Miss Evans	92.2%
Bl. 5 & 6 Mrs Williams	95.5%
Bl. 5 & 6 Mr Owen	90.6%

POLISIAU

Bydd polisiau yn cael ei hadolygu a'i diweddarau yn rheolaidd. Maent ar gael i unrhyw un sydd y dymuno ei gweld. Mae rhai polisiau ar wefan yr ysgol. Adolygwyd y polisiau canlynol yn ystod y flwyddyn:

- Derbyniadau
- Cwricwlwm
- Addysg Rhyw
- Tal
- Defnydd derbyniol o TGCh
- Trefniadau disgyblu staff

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Mae gan yr ysgol bolisi anghenion dysgu ychwanegol. Yn ystod 2015-16, Mrs A Ireland oedd cydgysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol, gyda chyfrifoldeb am gyd-gysylltu'r gefnogaeth ar gyfer disgyblion ar gofrestr ADY yr ysgol. O fis Medi 2016 ymlaen, Mr Sion Owen sydd wedi cymryd drosodd y cyfrifoldeb yn dilyn ymddeoliad Mrs Ireland.

Rhoddir cymorth a chefnogaeth i unigolion a grwpiau, yn ogystal a chefnogaeth o fewn dosbarthiadau. Dilynrir polisi'r ysgol a'r côd ymarfer ADY. Mae'r gefnogaeth a roddir i unigolion yn cael effaith gadarnhaol ar eu cynnydd. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos gyda gwasanaethau cefnogi yr awdurdod.

Mrs S Thomas-Ellis yw'r aelod o'r Bwrdd Llywodraethol sydd a chyfrifoldeb am Anghenion Dysgu Ychwanegol.

DISGYBLION GYDA ANABLEDD

Mae'r Corff Llywodraethol yn derbyn eu dylestswyddau a chyfrifoldebau dros ddisgyblion sydd a anableddau, a chymerir y camau priodol i sicrhau na fyddant yn cael i'w gwahaniaethu mewn unrhyw ffordd oherwydd anabledd. Os yw unrhyw riant neu ofalwr yn teimlo fod angen darpariaeth arbennig o fewn yr ysgol, yna dylent

drafod y mater gyda'r pennaeth yn yr achos gyntaf. Mae gan yr ysgol gynllun hygyrchedd.

BYW YN IACH

Mae'r ysgol yn rhan o Gynllun Ysgolion Iach yr Awdurdod Lleol. Cynigir ffrwyth a llaeth i ddisgyblion y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn. Anogir y disgyblion i fwyta'n iach ac yfed dŵr. Ni chaniateir i'r disgyblion ddod a siocled, fferins na diodydd pop ar gyfer byrbrydau bore neu b'nawn.

TOILEDAU

Mae gan yr ysgol doiledau penodol i ferched a bechgyn o fewn yr adeilad ac o fewn y cabanau allanol. Mae gan pob toiled gyfleusterau ymolchi a pheiriannau sychu trydan. Bydd pob toiled y cael ei lanhau yn ddyddiol gan lanhawyr a gyflogir gan yr Awdurdod Lleol.

CYDRADDOLDEB

Mae polisi cydraddoldeb ar gael yn yr ysgol. Ni gafwyd unrhyw achos yn ymwneud a hiliaeth yn ystod y flwyddyn.

AMSEROEDD SESIYNAU

Meithrin bore	8.55a.m. – 11.30a.m.
Meithrin p'nawn	12.45a.m. – 3.15p.m.
Derbyn / Blwyddyn 1 / Blwyddyn 2	8.55a.m. – 11.45 a.m 1.00p.m. – 3.15 p.m
Blwyddyn 3 / 4 / 5 / 6	8.55a.m. – 12.15p.m. 1.00p.m. – 3.15p.m.

ASESIADAU ATHRO

Roedd asesiadau athro ar gyfer diwedd y Cyfnod Sylfaen a Cyfnod Allweddol 2 yn galonogol.(gweler atodiad 2)

LLAWLYFR YSGOL

Mae copi o lawlyfr yr ysgol ar gael ar wefan yr ysgol, ac mae copi caled ar gael o swyddfa'r ysgol.

Dylid nodi unrhyw gwestiynau ynglyn a chynnwys yr adroddiad, ar bapur gan ei gyfeirio i Gadeirydd y Llywodraethwyr.

DYDDIADAU TYMHORAU YSGOL 2016 / 2017

Tymor yr Hydref

Agor	Dydd Llun, Medi'r 5ed 2016
Cau	Dydd Iau, Hydref yr 20fed 2016
Agor	Dydd Llun, Hydref y 31ain 2016
Cau	Dydd Gwener, Rhagfyr yr 16eg 2016

Tymor y Gwanwyn

Agor	Dydd Mercher, Ionawr y 4ydd 2017
Cau	Dydd Gwener, Chwefror yr 17eg 2017
Agor	Dydd Llun, Chwefror y 27ain 2017
Cau	Dydd Iau, Ebrill y 6ed 2017

Tymor yr Hâf

Agor	Dydd Llun, Ebrill y 24ain 2017
Gwyl Banc Mai	Dydd Llun, Mai y 1af 2017
Cau	Dydd Gwener, Mai y 26ain 2017
Agor	Dydd Llun, Mehefin y 5ed 2017
Cau	Dydd Iau, Gorffennaf yr 20fed 2017

Diwrnodau Hyfforddiant Staff, pan fydd yr ysgol ar gau

Dydd Iau, Medi'r 1af 2016
Dydd Gwener, Medi'r 2ail 2016
Dydd Gwener, Hydref y 21ain 2016
Dydd Mawrth, Ionawr y 3ydd 2017
Dydd Gwener, Ebrill y 7fed 2017